

LLYWELYN ap GRUFFYDD, neu LLYWELYN BREN (bu farw 1317)

Enw: Llywelyn ap Gruffydd

Dyddiad marw: 1317

Plentyn: Llywelyn ap Llywelyn ap Gruffydd

Plentyn: William ap Llywelyn ap Gruffydd

Plentyn: Roger ap Llywelyn ap Gruffydd

Plentyn: Meurig ap Llywelyn ap Gruffydd

Plentyn: John ap Llywelyn ap Gruffydd

Plentyn: Gruffydd ap Llywelyn ap Gruffydd

Rhiant: Gruffydd ap Rhys

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Gwrthryfelwyr; Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

Disgrifir ef fel mab Gruffydd - ac nid Rhys (tadenw a barodd beth dyrswch hyd yn hyn) - mewn llythyr yn hysbysu ddarfod ei gymryd i'r ddalfa yn 1316. Dengys cofnodion cyfoes ei fod yn wr diwylliedig ag iddo ddiddordebau llenyddol nas ceid gan wyr o'i radd a'i gyfnod ef, gwr yn berchen llawer o diroedd ac o gyfoeth personol yn Senghenydd a Meisgyn - ' a great man and powerful in his country,' medd cronicl cyfoes amdano. Awgryma hyn oll mai mab ydoedd i Gruffydd ap Rhys, deiliad Cymreig i arglwyddiaeth ('honour') Morgannwg, a gor-wyr i **Ifor Bach**, arglwydd Senghenydd, a Nest, wyres **Rhys ap Tewdwr Fawr**. Er y flwyddyn 1256 cawsai Senghenydd ei llyncu yn llwyr i mewn i drefniant ffiwdalaidd yr arglwyddiaeth, ond ymddengys fod Llywelyn ar delerau da iawn â'r iarll ieuanc, **Gilbert de Clare**, ac yn dal swydd dano; efallai, hefyd, ei fod yn gweithredu fel cynghorwr yr iarll ar faterion yn ymwneuthur â'r Cymry. Pan fu **Gilbert** farw, yn anhhymig, yn 1314, aeth Morgannwg am gyfnod i ddwylo'r Goron, ac arweiniodd hyn i gyfnwyddiadau yn y gweinyddiad lleol, yn enwedig pan ddewiswyd **Pain de Turberville**, arglwydd Coety, yn geidwad yr arglwyddiaeth yn 1315. Nid oedd **Pain**, a oedd yn gymydog agos ac yn elyn i gyfneseifiadaid Llywelyn yn Afan, yn gyfaill i Gymry o gwbl, o ba radd bynnag y byddent. Symudwyd Llywelyn o'i swydd a chafwyd, yn sgîl hynny, gyfnod byr o wrthgyhuddiadau personol chwerw ar y naill ochr a'r llall. Cyrhaeddodd hyn oll ei uchafbwynt pan na chafodd Llywelyn gan Edward II wrando arno ag unrhyw fesur o gydymdeimlad. Gan ei fod yn ofni y bradychid ef, dychwelodd Llywelyn adref yn ddirgel yn gynnar yn 1316, ac yn wyneb yr anfodlonrwydd a oedd yn gyffredinol ymysg y Cymry yn y parthau lle y caniateid i'r Cymry barhau i fyw ni chafodd unrhyw anhawster i beri gwrthryfel eang ymysg gwyr y Blaenau ym Morgannwg. Er i'r gwrthryfel achosi difrod mawr ym Mro Morgannwg, a llawer o gyrchoedd cryfion ar rai amddiffynfeydd pwysig, Caerffili yn eu plith, ni pharhaodd namyn ychydig wythnosau. Ychydig oibaith am lwyddiant a feddai'r gwrthryfelwyr pan gydymunodd arglwyddi'r Mars o dan Bohun a **Mortimer**, y ddau wr yr ymstyngodd Llywelyn iddynt mewn modd mor arwrol nes ennyn edmygedd croniclydd nad oedd Gymro. Ar 22 Mawrth rhoddwyd Llywelyn yn y carchar yn Aberhonddu. O 27 Gorffennaf 1316 hyd 17 Mehefin 1317 carcharwyd ef yn Nhwr Llundain. Erbyn hynny yr oedd Morgannwg yn cael ei defnyddio i bwmpasoedd teulu Despenser a gorfu i Lywelyn ddioddef oblegid eu gwanc hwy. Cymerwyd meddiant o'i stadau a daethpwyd ag yntau i Gaerdydd lle y gorfu iddo ddioddef marw fel bradwr. Yn ddiweddarach yr oedd llofruddio Llywelyn Bren yn un o'r cyhuddiadau a ddygwyd yn erbyn tylwyth Despenser. Pan gollodd Edward II ei orsedd cafodd meibion Llywelyn Bren - Gruffydd, John, Meurig, Roger, William, a Llywelyn - y stadau yn Senghenydd yn ôl (11 Chwefror 1327).

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Archaeologia Cambrensis, 1851, 179-91

Oxford Dictionary of National Biography

Malmesbury, *Chronicles of the Reigns of Edward I and Edward II* (1882â€³)

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)

Calendar of Close Rolls

Calendar of Patent Rolls

Ralph Griffiths, 'The Revolt of Llywelyn Bren, 1316' yn *The Glamorgan Historian*, II, 186-96

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Llywelyn Bren](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [36643560](#)

Wikidata: [Q1088032](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Pierce, T. J., (1953). LLYWELYN ap GRUFFYDD, neu LLYWELYN BREN (bu farw 1317). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLYW-APG-1317>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government